Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru | Mental Health Review Tribunal for Wales

T144
# Sylwadau dioddefwr a Datganiad o Effaith ar Ddioddefwr

Mae'r ffurflen hon ar gyfer dioddefwyr trosedd ddifrifol gan glaf dan gyfyngiadau, sy'n cael ei gadw oherwydd salwch meddwl.

Defnyddiwch y ffurflen hon i wneud y canlynol:

- cynnig amodau os bydd y tribiwnlys yn penderfynu y dylid rhyddhau'r claf o'r ysbyty
- rhoi Datganiad o Effaith ar Ddioddefwr a dweud a yw'r dioddefwr yn dymuno bod yn bresennol mewn gwrandawiad

Gallwch ofyn i rai manylion gael eu cadw oddi wrth y claf, ei gynrychiolydd neu ei dîm clinigol.

## Os oes angen help arnoch

Cysylltwch â Thribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru os oes gennych gwestiynau am y ffurflen hon neu am sut mae'r tribiwnlys yn gweithio.

**Ni all y llinell gymorth roi cyngor cyfreithiol i chi**

**E-bost:**
MHRT@llyw.cymru

**Ffôn:**
(0) 3000 255328
(dydd Llun i ddydd Gwener, 8:30am - 5pm)

## Deddfwriaeth

Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004; Deddf Dioddefwyr a Charcharorion 2004

## Cyflwyno sylwadau

Gallwch gyflwyno sylwadau am amodau:

- os yw'r claf yn cael ei ryddhau ar ôl cael ei gadw - gallwch ofyn am bennu amodau a dweud wrthym pam
- os yw’r claf eisoes yn destun rhyddhad amodol, ac a oes angen yr un amodau neu amodau gwahanol yn awr

## Canllawiau ar gyfer llenwi’r ffurflen hon

Mae nodiadau i'ch helpu i ddeall cwestiynau ar ochr dde'r dudalen.

Defnyddiwch ddalen arall o bapur os nad oes digon o le i chi ddweud popeth. Rhowch eich enw ar frig unrhyw dudalennau ychwanegol.

Ysgrifennwch yn glir os ydych chi'n llenwi'r ffurflen hon â llaw.

## Os oes angen help arnoch

Cysylltwch â Thribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru os oes gennych gwestiynau am y ffurflen hon neu am sut mae'r tribiwnlys yn gweithio.

**Ni all y llinell gymorth roi cyngor cyfreithiol i chi.**

**E-bost:** MHRT@llyw.cymru

**Ffôn:**
(0) 3000 255328 (dydd Llun i ddydd Gwener, 8:30am - 5pm)

Mae'r Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno ffurflenni, dogfennau a sylwadau ysgrifenedig i'r Tribiwnlys.

**1. Dewis Iaith**

| | |
|---|---|
| Eich dewis iaith ar gyfer gohebu â ni | ☐ Cymraeg ☐ Saesneg ☐ y ddwy iaith |
| Eich dewis iaith ar gyfer unrhyw gyfathrebu geiriol: | ☐ Cymraeg ☐ Saesneg ☐ y ddwy iaith |
| A fyddai'n well gennych siarad Cymraeg neu Saesneg yn eich Gwrandawiad Tribiwnlys? | ☐ Cymraeg ☐ Saesneg ☐ y ddwy iaith |

**2. Ieithoed llafar**

| | |
|---|---|
| Pa ieithoedd ydych chi'n eu defnyddio i gyfathrebu? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol) | ☐ Cymraeg ☐ Saesneg ☐ Arall |

Arall (rhowch fanylion)

3. Hoffem gefnogi defnyddio'r Gymraeg mewn Tribiwnlysoedd. Os ydych chi'n gallu siarad Cymraeg, ac wedi nodi Saesneg fel eich dewis iaith, a oes rheswm penodol pam eich bod wedi dewis cyfathrebu yn Saesneg?

(Ni fydd eich ateb yn effeithio ar eich achos mewn unrhyw ffordd)

# Adran 1 – Manylion yr achos

**1.1 Rhif achos y tribiwnlys**

**1.2 Manylion y claf**

Enw llawn y claf

**1.3 Manylion y dioddefwr**

Enw llawn y dioddefwr

**1.4 Manylion y Swyddog Cyswllt Dioddefwyr**

Enw llawn y Swyddog Cyswllt Dioddefwyr

**Nodyn 1.4**

Rhaid i chi anfon eich cyfeiriad e-bost a'ch rhif ffôn ar wahân drwy e-bost at: MHRT@llyw.cymru

## Adran 2 - Sylwadau am amodau

**2.1** 2.1 Ydych chi eisiau cyflwyno sylwadau am amodau ar gyfer y claf os bydd yn cael ei ryddhau o'r ysbyty?

☐ Ydw > ewch i gwestiwn 2.2

☐ Nac ydw > ewch i Adran 3

**2.2** Ysgrifennwch yr amodau arfaethedig os caiff y claf ei ryddhau, a pham mae'r dioddefwr eisiau i'r amodau hyn gael eu defnyddio.

**Nodyn 2.2**

Amgaewch fap o'r ardal dan waharddiad os oes un. Neu gallwch restru ardaloedd dan waharddiad yn y blwch testun.

Ni ddylai ardaloedd dan waharddiad ddangos cyfeiriad y dioddefwr.

Bydd sylwadau'n cael eu datgelu i'r claf, i gynrychiolydd y claf ac i'r tîm clinigol oni bai eich bod yn rhoi rheswm dilys dros beidio â gwneud hynny a bod y tribiwnlys yn cytuno i hynny.

Dim ond mewn amgylchiadau cyfyngedig y mae'r tribiwnlys yn caniatáu ceisiadau peidio â datgelu.

Gallwch ofyn i'r tribiwnlys gadw sylwadau yn ôl yng nghwestiwn 2.3.

Defnyddiwch ddalen arall o bapur os nad oes digon o le i chi ddweud popeth. Rhowch eich enw ar frig unrhyw dudalennau ychwanegol.

**2.3** Ydy'r dioddefwr eisiau gofyn i'r amodau arfaethedig gael eu cadw oddi wrth y claf?

- [ ] Ydy > ewch i gwestiwn 2.4
- [ ] Nac ydy > ewch i Adran 3

**2.4** Dywedwch wrth y tribiwnlys pam y mae datgelu sylwadau'r dioddefwr i'r claf yn debygol o achosi niwed difrifol i'r dioddefwr neu i rywun arall.

### Nodyn 2.3

Bydd amodau arfaethedig yn cael eu datgelu i'r claf, i gynrychiolydd y claf ac i'r tîm meddygol oni bai eich bod yn rhoi rheswm dilys dros beidio â gwneud hynny a bod y tribiwnlys yn cytuno i hynny.

Dim ond mewn amgylchiadau cyfyngedig y mae'r tribiwnlys yn caniatáu ceisiadau peidio â datgelu.

Efallai na fydd y claf yn gallu cydymffurfio ag amodau nad yw'n ymwybodol ohonynt. Bydd angen i'r tribiwnlys hefyd benderfynu a fyddai peidio â datgelu yn atal y claf rhag cymryd rhan effeithiol yn yr achos.

**2.5** Dywedwch wrth y Tribiwnlys pam y byddai'n gymesur ac er budd cyfiawnder i'r tribiwnlys beidio â datgelu'r sylwadau am amodau i'r claf.

**Nodyn 2.5**

Bydd panel y tribiwnlys, y claf, cynrychiolydd y claf a'r tîm clinigol yn cael copi o resymau'r dioddefwr oni bai eich bod wedi gofyn am beidio â datgelu a bod y tribiwnlys yn cytuno.

Rhaid i chi ddangos tystiolaeth na fyddai peidio â datgelu'r sylwadau'n atal y claf rhag cydymffurfio â hwy.

**2.6** Os bydd y tribiwnlys yn penderfynu y dylid datgelu'r sylwadau a'r amodau, ydych chi am eu tynnu'n ôl?

☐ Ydw

☐ Nac ydw

**Nodyn 2.6**

Os na fyddwch yn dewis, a bod y tribiwnlys yn penderfynu datgelu'r sylwadau a'r amodau, bydd yn eu rhoi i'r claf yn awtomatig.

# Adran 3 - Datganiad o'r Effaith ar Ddioddefwr

**3.1** Ydy'r dioddefwr eisiau cyflwyno Datganiad o Effaith ar Ddioddefwr?

☐ Ydy > ewch i gwestiwn 3.2

☐ Nac ydy > ewch i Adran 5

**3.2** Ysgrifennwch y Datganiad o Effaith ar Ddioddefwr:

### Nodyn ar gyfer Adran 3

Dim ond er mwyn penderfynu a ddylid pennu amodau wrth ryddhau claf a beth ddylai'r amodau hynny fod y caiff y tribiwnlys ddefnyddio'r Datganiad o Effaith ar Ddioddefwr. Nid yw'r gyfraith yn caniatáu defnyddio'r datganiad i benderfynu a ddylid rhyddhau'r claf.

Bydd Datganiadau o Effaith ar Ddioddefwyr yn cael eu datgelu i'r claf, i gyfreithiwr y claf ac i'r tîm meddygol oni bai eich bod yn rhoi rheswm dilys dros beidio â gwneud hynny. Dim ond mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn y mae'r tribiwnlys yn caniatáu ceisiadau peidio â datgelu.

Defnyddiwch ddalen arall o bapur os nad oes digon o le i chi ddweud popeth. Rhowch eich enw ar frig unrhyw dudalennau ychwanegol.

**3.3** Ydy'r dioddefwr eisiau gofyn i'r Datganiad o Effaith ar Ddioddefwr gael ei gadw oddi wrth y claf?

- [ ] Ydy > ewch i gwestiwn 3.4
- [ ] Nac ydy > ewch i Adran 4

**3.4** Dywedwch wrth y tribiwnlys sut mae'n debygol o achosi niwed difrifol i'r dioddefwr neu i bobl eraill os bydd y Datganiad o Effaith ar Ddioddefwr yn cael ei ddatgelu i'r claf.

**3.5** Dywedwch wrth y tribiwnlys pam y byddai'n gymesur ac er budd cyfiawnder i'r tribiwnlys ddweud na ddylid datgelu'r Datganiad o Effaith ar Ddioddefwr i'r claf.

**Nodyn 3.3**

Dim ond os yw'r canlynol yn berthnasol y gall y tribiwnlys ddweud y dylid cadw manylion yn ôl mewn dogfennau, oddi wrth y claf neu'r cynrychiolydd:

- os bydd datgelu'r wybodaeth honno yn debygol o achosi niwed difrifol i rywun
- os ydy cadw'r wybodaeth honno yn ôl yn gymesur ac er budd cyfiawnder

Gall y tribiwnlys ddweud y dylid cadw'r wybodaeth hon oddi wrth y claf yn unig ac nid oddi wrth ei gynrychiolydd. Os bydd hyn yn digwydd, ni ddylai'r cynrychiolydd ddatgelu hyn i'r claf.

**3.6** Ydy'r dioddefwr yn gwrthwynebu datgelu'r Datganiad o Effaith ar Ddioddefwr i **gynrychiolydd y claf?**

☐ Yes > go to question 3.7

☐ No > go to Section 4

**3.7** Dywedwch wrth y tribiwnlys sut mae'n debygol o achosi niwed difrifol i'r dioddefwr neu bobl eraill os bydd y Datganiad o Effaith ar Ddioddefwr yn cael ei ddatgelu i gynrychiolydd y claf a pham y byddai cadw'r wybodaeth hon yn ôl yn gymesur ac er budd cyfiawnder.

**3.8** Os bydd y tribiwnlys yn penderfynu y dylid datgelu'r Datganiad o Effaith ar Ddioddefwr, ydych chi am ei dynnu'n ôl?

☐ Ydw

☐ Nac ydw

**Nodyn 3.8**

Os na fyddwch yn dewis, a bod y tribiwnlys yn penderfynu datgelu'r Datganiad o Effaith ar Ddioddefwr, bydd yn ei roi i'r claf yn awtomatig.

# Adran 4 – Opsiynau ar gyfer Gwrandawiadau

Bydd pob aelod o banel y tribiwnlys yn cael copi o unrhyw Ddatganiad o Effaith ar Ddioddefwr a roddir.

Byddant yn darllen hwn ac unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig arall i baratoi ar gyfer y gwrandawiad.

**4.1** Ydy'r dioddefwr eisiau bod yn bresennol yn y gwrandawiad?

Fel arfer, bydd hyn dros fideo neu dros y ffôn.

☐ Ydy > ewch i gwestiwn 4.3

☐ Nac ydy > ewch i gwestiwn

**4.2** Ydy'r dioddefwr eisiau i'r Datganiad o Effaith ar Ddioddefwr gael ei glywed yn y gwrandawiad yn ei absenoldeb?

☐ Ydy

Mae'r dioddefwr eisiau i'r Swyddog Cyswllt Dioddefwyr ddarllen y datganiad yn uchel yn y gwrandawiad

☐ Nac ydy

Nid yw'r dioddefwr eisiau i'r datganiad gael ei ddarllen yn uchel yn y gwrandawiad, ond gall panel y tribiwnlys ddarllen y datganiad yn breifat i baratoi ar gyfer y gwrandawiad

**4.3** Ydy'r dioddefwr eisiau darllen y Datganiad o Effaith ar Ddioddefwr yn y gwrandawiad?

☐ Ydy

Mae'r dioddefwr eisiau darllen y datganiad yn uchel ei hun

☐ Nac ydy

Nid yw'r dioddefwr eisiau darllen y datganiad ond mae eisiau i'r Swyddog Cyswllt Dioddefwyr ei ddarllen yn y gwrandawiad, yn ei bresenoldeb

**4.4** A oes angen unrhyw gymorth ar y dioddefwr i fod yn bresennol mewn gwrandawiad o bell, er enghraifft, cyfieithydd ar y pryd? Rhowch fanylion pa gymorth sydd ei angen.

|   |
|---|
|   |

### Nodyn ar gyfer Adran 4

Nid oes rhaid i ddioddefwyr sy'n cyflwyno Datganiadau o Effaith ar Ddioddefwyr ac amodau arfaethedig fod yn bresennol mewn gwrandawiad.

Os byddant yn bresennol mewn gwrandawiad, byddant yn bresennol o bell a bydd y Swyddog Cyswllt Dioddefwyr gyda nhw.

Os bydd dioddefwr yn bresennol mewn gwrandawiad o bell, rhaid iddo adael ar ôl i'r datganiad gael ei ddarllen, gan nad yw'n rhan o'r achos. Ni all ychwanegu dim at ei ddatganiad yn y gwrandawiad.

Mae'n bosibl y bydd tystion yr ysbyty, y claf a'i gynrychiolydd cyfreithiol yn bresennol pan glywir y datganiad. Efallai y bydd y claf a'i gynrychiolydd cyfreithiol eisoes wedi gweld y datganiad, oni bai fod y tribiwnlys wedi caniatáu gorchymyn peidio â datgelu mewn amgylchiadau eithriadol.

### Nodyn 4.4

Mae angen cymorth ar rai pobl i gael gafael ar wybodaeth a defnyddio ein gwasanaethau, er enghraifft:

- cymorth gyda chyfathrebu, golwg, clyw, siarad, dehongli neu gyfieithu
- dogfennau mewn fformatau, lliwiau neu ffontiau gwahanol

# Adran 5 – Crynodeb o'r rhesymau

**Nodyn ar gyfer Adran 5**

Os bydd y tribiwnlys yn penderfynu rhyddhau'r claf, bydd yn gwneud crynodeb o'r rhesymau. Ni ellir rhannu'r penderfyniad llawn, ond caniateir i'r dioddefwr ofyn am grynodeb o'r penderfyniad.

**5.1** Ydy'r dioddefwr eisiau cael crynodeb y tribiwnlys rhesymau os caiff y claf ei ryddhau?

☐ Ydy > ewch i gwestiwn 5.2

☐ Nac ydy > ewch i gwestiwn 5.3

**5.2** Dywedwch wrth y tribiwnlys pam y mae'r dioddefwr am gael y crynodeb o'r rhesymau os caiff y claf ei ryddhau.

| |
|---|
| |

**5.3** Ydy'r dioddefwr eisiau cael crynodeb y tribiwnlys o'r rhesymau hyd yn oed os na chaiff y claf ei ryddhau?

☐ Ydy > ewch i gwestiwn 5.4

☐ Nac ydy > ewch i Adran 6

**5.4** Dywedwch wrth y tribiwnlys pam y mae'r dioddefwr am gael y crynodeb o'r rhesymau os na chaiff y claf ei ryddhau.

| |
|---|
| |

# Llofnod

☐ **Rwy'n credu** bod y ffeithiau a nodir yn y ffurflen hon ac unrhyw dudalennau ychwanegol yn wir ac yn gyflawn.

☐ **Mae'r dioddefwr yn credu** bod y ffeithiau a nodir yn y ffurflen hon ac unrhyw dudalennau ychwanegol yn wir ac yn gyflawn. Cefais ganiatâd gan y dioddefwr i lofnodi'r datganiad hwn.

**Llofnod**

☐ Dioddefwr

☐ Swyddog Cyswllt Dioddefwyr

**Dyddiad**

Dyddiad Mis Blwyddyn

Enw llawn

Cynrychiolydd y dioddefwr (dewisol)

## Pa ddogfennau ydych chi'n eu hanfon gyda'r ffurflen hon?

Rhestrwch yr holl ddogfennau, gan gynnwys tudalennau ychwanegol, yr ydych yn eu hanfon gyda'r ffurflen hon:

## Sut i anfon y ffurflen

Gallwch naill ai anfon y ffurflen hon i'r tribiwnlys drwy **e-bost** neu’r **post.**

Anfonwch y ffurflen wedi'i llenwi ac unrhyw dystiolaeth ategol gan ddefnyddio un o'r opsiynau isod.

**Cyfeiriad e-bost**
MHRT@llyw.cymru

**Cyfeiriad postio**
TAIM Cymru
Blwch SP 1134
Caerdyddd
CF11 1WX